# PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1A, Neuadd Y Sir, Ruthun, Dydd Iau, 14 Chwefror 2019 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Gareth Davies, Pat Jones, Christine Marston, Melvyn Mile, Andrew Thomas, Rhys Thomas, David Williams ac Emrys Wynne

**Aelodau Cabinet Arweiniol** – Roedd y Cynghorydd Tony Thomas yn bresennol ar gyfer Eitem 5.
Roedd y Cynghorydd Mark Young yn bresennol ar gyfer Eitem 6.
Roedd y Cynghorydd Huw Hilditch- Roberts yn bresennol ar gyfer Eitem 7.

**Sylwedyddion** – y Cynghorwyr Glenn Swingler a Martyn Holland.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (EJ); Rheolwr yr Amgylchedd Adeiledig (GR); Rheolwr Busnes (IM); Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant (KE); Prif Reolwr (JW); Rheolwr Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (J J-H); Cydlynydd Craffu (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Hugh Irving

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyng. Emrys Wynne gysylltiad personol ag eitem 5 oherwydd ei rôl fel ynad.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2018.

Diolchodd y Cadeirydd i’r swyddogion a chanmol safon uchel y cofnodion.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2018 fel cofnod cywir.*

## 5 DARPARIAETH GORFODI AMGYLCHEDDOL

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd adroddiad Rheolwr yr Amgylchedd Adeiledig a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd ymlaen llaw). Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r ymgynghoriad ynghylch manyleb ddrafft y contract i ddarparu gwasanaethau gorfodaeth troseddau amgylcheddol yn y sir. Rhoddodd yr Aelod Arweiniol wybodaeth gefndir i'r Aelodau ac egluro pam bod y Cyngor yn chwilio am ddarparwr newydd i ddarparu gwasanaethau gorfodaeth troseddau amgylcheddol, yn dilyn penderfyniad Kingdom Security Limited i ddod â'u contract gyda'r Cyngor i ben ym mis Awst 2018. Cyn penderfyniad Kingdom i ddod â'r contract i ben, roedd yn amlwg bod rhai trigolion yn anhapus gyda dull y cwmni tuag at orfodaeth troseddau amgylcheddol. Yn dilyn ymadawiad Kingdom roedd aelodau etholedig wedi ei gwneud yn glir y dylai ffocws unrhyw gontract yn y dyfodol fod ar weithgareddau gorfodaeth baw cŵn, gyda phwyslais ar addysgu troseddwyr a thrigolion am beryglon baw ci a phwysigrwydd cadw at Orchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn ymwneud â rheoli cŵn. Tra bod y fanyleb ddrafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ei hystyried yn canolbwyntio ar droseddau yn ymwneud â chŵn, mae hefyd yn cynnwys darpariaeth i benodi contractwr i orfodi yn erbyn troseddau amgylcheddol eraill fel taflu sbwriel, begera ac ati. Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol nad yw gwasanaethau gorfodaeth troseddau amgylcheddol erioed wedi eu darparu'n fewnol gan y Cyngor, ac felly mae cost sefydlu gwasanaeth mewnol, Sef oddeutu £200,000 a £250,000, yn afresymol. Cynghorodd hefyd bod ymholiadau wedi eu gwneud o ran y posibilrwydd o gydweithio'n rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau gorfodaeth troseddau amgylcheddol. Fodd bynnag nid yw hyn yn hyfyw yn y dyfodol agos ond mae'n bosibl y bydd cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gaffael gwasanaethau gorfodaeth troseddau amgylcheddol yn ddewis yn y dyfodol. Mae manyleb ddrafft Sir Ddinbych wedi ei rhannu gyda CBSC er mwyn archwilio hyfywedd tendro am wasanaethau gyda'n gilydd yn y dyfodol.

Dywedodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd bod y dull newydd arfaethedig ar gyfer delio â throseddau amgylcheddol yn cynnwys tair elfen ar wahân, sef:

- Cyfathrebu gyda'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth a meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb personol, gyda'r bwriad o gael ymrwymiad cymunedau i nodau ac amcanion y strategaeth baw cŵn a'r math yma o ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Strydoedd glân a thaclus, gwaith y tîm Gwasanaethau Stryd a'u dull rhagweithiol at roi gwybod i'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd am fannau problemus er mwyn i'r gwasanaeth dargedu'r ardal a gosod posteri a dosbarthu taflenni
- Camau gorfodi (gan gynnwys sesiynau mewn ysgolion ac ar gyfer grwpiau cymunedol ac ati)

Dywedodd Rheolwr yr Amgylchedd Adeiledig a Gwarchod y Cyhoedd y bu i Kingdom ddarparu gwasanaethau gorfodaeth troseddau amgylcheddol am bum mlynedd bron. Yn ystod y cyfnod hwnnw cafodd contract y cwmni gyda'r Cyngor ei reoli a'i fonitro'n effeithiol gan Swyddog Gwarchod y Cyhoedd: Diogelwch Cymunedol.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, eglurodd yr Aelod Arweiniol a Rheolwr yr Amgylchedd Adeiledig a Gwarchod y Cyhoedd y canlynol:

- Mae'r penderfyniad i roi'r gwaith allan ar dendr a chaffael gwasanaethau gan ddarparwr allanol eisoes wedi ei wneud gan y Cabinet ym mis Medi 2018, pwrpas yr adroddiad i'r Pwyllgor yw ymgynghori ynghylch manyleb y contract
- Mae Gwasanaeth Addysg y Cyngor o'r farn bod bwlch yn y math hwn o addysg o fewn ysgolion y sir ac y byddai disgyblion yn cael budd o ddysgu am droseddau amgylcheddol a deall eu cyfrifoldebau nhw a'u teulu
- Tra'r oedd Kingdom yn gweithio yn Sir Ddinbych roedd y sir yn sgorio'n uchel ar y mynegai strydoedd glân
- Bydd y cwmni llwyddiannus yn cael ei reoli a'i fonitro gan Swyddog Gwarchod y Cyhoedd:
  Diogelwch Cymunedol yn yr un modd â Kingdom
- Roedd y costau ac ati ar gyfer nifer o ddewisiadau posibl ar gyfer darparu'r gwasanaeth wedi eu darparu mewn adroddiad i'r Cabinet ym mis Medi 2018. Gofynnodd yr Aelodau am gopi o'r adroddiad hwnnw
- Oherwydd natur y gwasanaeth nid yw ei ddarparu yn hawdd, nid yw ychwaith yn wasanaeth poblogaidd i'w ddarparu.
  Os yw'r Cyngor yn penderfynu darparu'r gwasanaeth ei hun, byddai ei enw da yn dioddef. Fodd bynnag, mae yna gwmnïau preifat sy'n darparu'r mathau hyn o wasanaethau. Mae profion sydyn wedi eu cynnal ar y farchnad ac mae pedwar neu bump o gwmnïau wedi dangos diddordeb mewn cyflwyno cais i ddarparu'r gwasanaeth
- Mae manyleb ddrafft y contract yn nodi y byddai swyddogion sy'n darparu'r gwasanaeth yn gwisgo iwnifform nodedig ac amlwg (dim du) sy'n cyflwyno ymddangosiad clir a chyfeillgar i bob aelod o'r gymdeithas Unwaith y bydd y contract wedi ei lofnodi bydd swyddogion a chynrychiolwyr o'r cwmni llwyddiannus yn ymweld â phob Grŵp Ardal yr Aelodau er mwyn cyflwyno eu hunain a rhyngweithio gydag aelodau lleol a dysgu mwy am y wardiau
- Fel rhan o'r elfen i gynhyrchu incwm yn y fanyleb arfaethedig, mae'r Cyngor wedi ystyried costau penodol y model darparu a rhannu'r cosbau.
  Er mwyn cael gwasanaeth sy'n bosibl ei ddarparu, un dewis posibl yw caniatáu i'r darparwr gwasanaeth gadw 95% o'r Rhybudd Cosb Benodedig, gyda'r Cyngor yn cael 5% ohono. Ffigyrau dangosol yw'r rhain ar hyn o bryd
- Hefyd, yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd trigolion yn gallu helpu'r Cyngor i dargedu mannau lle mae baw cŵn yn broblem drwy ddefnyddio ap ffôn symudol a fyddai'n caniatáu iddynt dynnu llun a'i anfon at y Cyngor yn syth bin gyda manylion y lleoliad
  Byddai derbyn y math yma o wybodaeth 'fyw' yn galluogi'r Cyngor i ddosbarthu adnoddau priodol i'r ardaloedd hynny yn gynt na'r arfer
- Bydd y Cyngor yn gallu gweithredu pan fo perchnogion cŵn yn methu cydymffurfio â gorchmynion rheoli cŵn mewn ardaloedd Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus.
  Mewn ardaloedd eraill efallai byddai modd defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac ati i gyfathrebu gyda thrigolion a rhoi gwybod iddynt beth yw eu cyfrifoldebau nhw fel perchnogion cŵn
- Wrth dendro am y contract bydd disgwyl i ddarpar ddarparwyr lunio cynllun busnes hyfyw a chadarn a fyddai'n sicrhau bod modd iddynt ddarparu'r gwasanaeth yn unol â manyleb y contract.

Dylai’r cynllun busnes hefyd nodi sut y byddant yn cwrdd â’u gorbenion a’u dyledion ac yn cynhyrchu elw

- Byddai dod â’r contract i ben yn golygu rhoi mis o rybudd i’r Cyngor
- Maent yn hyderus y bydd nifer o gwmnïau yn gwneud cais am y contract unwaith y mae wedi ei hysbysebu.
  Fodd bynnag, os na dderbynnir cais byddwn yn ailedrych ar fanyleb y contract

Awgrymodd yr Aelodau y gall rhyngweithio â disgyblion ysgolion y sir gynnwys trefnu cystadlaethau creu posteri fel ffordd i atgyfnerthu eu dysgu a chyfleu hynny i’r gymuned ehangach. Mae hefyd yn bwysig addysgu plant, yn enwedig disgyblion uwchradd, ar sut i waredu gwahanol fathau o sbwriel yn briodol, gan gynnwys deunydd pacio bwydydd brys. Pwysleisiodd y Pwyllgor fod cydweithio a chysylltiad agos rhwng swyddogion gorfodaeth troseddau amgylcheddol ac aelodau etholedig lleol yn hollbwysig i sicrhau gwasanaeth gorfodi amgylcheddol effeithiol.

Ar ddiwedd y drafodaeth, ar ôl ystyried yr adroddiad a’i gynnwys ynghyd ag atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd, cafwyd pleidlais gyda 7 o blaid a 3 yn erbyn:

***<u>PENDERFYNWYD:</u>*** ***- yn amodol ar y sylwadau uchod -***

***(i) Cefnogi’r fanyleb ddrafft a nodir yn Atodiad A a B yr adroddiad i alluogi swyddogion i barhau â’r cam tendro i gaffael darparwr allanol i ddarparu gwasanaeth gorfodaeth amgylcheddol yn y sir; a***
***(ii) Bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu darparu i’r Grwpiau Ardal Aelodau ar weithgareddau gorfodaeth troseddau amgylcheddol yn eu hardaloedd.***

## 6 DIWEDDARIAD PARTNERIAETH TELEDU CYLCH CYFYNG SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol adroddiad Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd ymlaen llaw) a oedd yn darparu diweddariad ar y Bartneriaeth TCC, y trefniadau llywodraethu, ynghyd ag asesiad o’i effeithiolrwydd wrth ddarparu’r gwasanaeth, a gwybodaeth am y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Gorllewin Caer a Chaer i ddarparu’r gwasanaeth a gwaith ar y gweill i ddatblygu dyfodol mwy cynaliadwy ar gyfer y gwasanaeth. Ynghlwm wrth yr adroddiad mae adolygiad archwilio mewnol diweddar o’r gwasanaeth (Atodiad 2) ac adroddiad gweithrediadol cyfrinachol gan Gyngor Gorllewin Caer a Chaer ar y gwasanaeth.

Darparodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wybodaeth i’r Pwyllgor am sefydliad y bartneriaeth. Oherwydd cyfyngiadau ariannol nid oedd y Cyngor yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth TCC, sy’n wasanaeth anstatudol. Fodd bynnag, mae’r gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi gan gymunedau a Heddlu Gogledd Cymru ac, o ganlyniad, lluniwyd trefniadau amgen ar gyfer ei ddarparu. Felly, dyma sefydlu partneriaeth gyda chynghorau tref Prestatyn, Rhuddlan a’r Rhyl, Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ddinbych. Roedd y bartneriaeth yn darparu gwasanaeth TCC nad oedd yn cael ei fonitro 24/7, fodd bynnag roedd y partneriaid yn awyddus i archwilio dewisiadau posibl ar gyfer datblygu dyfodol mwy cynaliadwy a chadarn ar gyfer y gwasanaeth. Yn dilyn ystyried nifer o ddewisiadau

penderfynwyd ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth 3 blynedd gyda Chyngor Gorllewin Caer a Chaer. Arweiniodd hyn at drosglwyddo lluniau pob camera ym meddiant y bartneriaeth i Gyngor Gorllewin Caer a Chaer at ddibenion monitro ymatebol 24 awr y dydd. Mae gan Gyngor Gorllewin Caer a Chaer sianeli cyfathrebu uniongyrchol gyda Heddlu Gogledd Cymru sydd yn eu galluogi i roi gwybod iddynt yn syth bin am unrhyw ddigwyddiad sy'n datblygu. I hwyluso pethau wrth ddarlledu'r lluniau'n uniongyrchol i Gyngor Gorllewin Caer a Chaer buddsoddwyd mewn gweinydd newydd. Ar gyfer y dyfodol, mae yna gynlluniau i gysylltu â chynghorau tref a dinas eraill i weld a oes diddordeb ganddynt mewn ymuno â'r bartneriaeth er mwyn cael budd o wasanaeth monitro ymatebol. Byddai'n rhaid i bob cyngor tref a dinas benderfynu pa fudd sydd o dderbyn y gwasanaeth am gost gychwynnol a chyfraniad blynyddol yn seiliedig ar nifer y camerâu yn eu hardal. Oherwydd bod y Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn drefniant newydd mae swyddogion wedi gofyn i Adain Archwilio Mewnol y Cyngor gynnal adolygiad o'r trefniant er mwyn cael sicrwydd bod gan y Cyngor drefn lywodraethu a gweithdrefnau rheoli contract cadarn i reoli risgiau a monitro perfformiad ac ati. Mae'r adolygiad hwnnw wedi rhoi sgôr sicrwydd canolig, ac wedi nodi mân wendidau o ran rheoli risgiau a/neu reolaethau, ond dim risg i gyflawni amcanion. Mae'r tair risg a nodwyd yn sgil yr adolygiad wedi ei datrys.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a Phennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fel a ganlyn i gwestiynau'r Aelodau:

- Mae'r gwasanaeth a ddarperir dan y Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn gost-effeithiol ac yn cael ei lywodraethu'n dda
- Mae pob cyngor tref yn y bartneriaeth yn gwneud cyfraniad ariannol tuag at y gwasanaeth yn seiliedig ar nifer y camerâu sydd yn eu hardal.
  Hefyd, mae gwasanaethau Cyngor sydd â chamerâu TCC hefyd yn gwneud cyfraniad ariannol, yn ogystal â Heddlu Gogledd Cymru sy'n defnyddio'r delweddau fel tystiolaeth ar gyfer erlyn
- Mae'r bartneriaeth yn gweithredu oddeutu 80 o gamerâu ar draws tair tref.
  Yn dilyn rhaglen ad-drefnu/blaenoriaethu mae 32 o gamerâu wedi eu dynodi'n gamerâu blaenoriaeth yn seiliedig ar eu pwysigrwydd cymunedol ac i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn. Mae'r 48 camera arall wedi eu categoreiddio'n flaenoriaeth is
- Mae camerâu newydd, sy'n fwy modern, yn hynod o ddefnyddiol gan eu bod yn helpu'r heddlu i adnabod wynebau
  Mae'r camerâu hyn yn andros o ddrud ac angen mynediad sydyn i'r rhyngrwyd
- Mae gwaith ar fin dechrau ar farchnata manteision y bartneriaeth i bartneriaid posibl, a fydd yn cynnwys darparu amcangyfrif o gost ymuno â'r bartneriaeth
- Mae Heddlu Gogledd Cymru yn darparu diweddariadau chwarterol i'r Bwrdd Partneriaeth ar drosedd ac ati yn yr ardal.
  Mae'r adroddiadau hyn yn amlygu mannau problemus o ran troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ati
- Mae perthynas waith gadarn yn bodoli rhwng y bartneriaeth a Chyngor Gorllewin Caer a Chaer
- Ni cheir tystiolaeth ar hyn o bryd o'r angen i fonitro'r camerâu 24 awr y dydd gan fod y trefniadau monitro ymatebol presennol yn effeithiol

- Mae gan Heddlu Gogledd Cymru ychydig o gamerâu TCC symudol y mae modd eu gosod mewn ardaloedd lle ceir pryderon ynghylch troseddau ac ati. Dylai cynghorau tref a chymuned sy'n pryderu ynghylch troseddau yn eu hardaloedd gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i ofyn am gymorth ac i drafod a yw'n briodol iddynt osod y camerâu yn eu hardaloedd dros dro
- Cadarnhawyd, er bod tueddiadau cenedlaethol yn dangos cynnydd mewn lefelau troseddau mawr ar draws y Deyrnas Unedig, bod Heddlu Gogledd Cymru ond yn adrodd ar droseddau bach o fewn ardal y TCC.
  Mae'r dulliau ar gyfer cofnodi troseddau hefyd wedi newid

Gofynnwyd cwestiynau am ddogfen gyfrinachol Atodiad 1. Yn y rhan hon o'r cyfarfod:

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***<u>PENDERFYNWYD:</u> gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ganlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 18 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.***

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a Phennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i gwestiynau'r Pwyllgor.

**RHAN I –** Ar ôl cwblhau'r busnes uchod agorwyd y cyfarfod unwaith eto.

Dywedodd Aelodau ardal y Rhyl bod y bartneriaeth yn darparu gwasanaeth effeithiol a gwerth am arian yn eu hardal.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

***<u>PENDERFYNWYD:</u>-***

***(i) Yn amodol ar y sylwadau uchod, parhau i gefnogi datblygiad y Bartneriaeth TCC; ac***
***(ii) Annog swyddogion ac Aelodau i hyrwyddo manteision gwasanaeth y bartneriaeth i fudd-ddeiliaid/sefydliadau sydd â diddordeb.***

Yn y fan hon (11.30 a.m.) cafwyd egwyl o 10 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.40 a.m.

## 7 CEFNOGAETH I OFALWYR IFANC YN SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc adroddiad Rheolwr y Rhaglen Cymorth Cynnar (a gylchredwyd ymlaen llaw) sy'n amlinellu'r gwaith a wneir yn gorfforaethol i gefnogi gofalwyr ifanc y sir. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio'n benodol ar gynnig cardiau hamdden i ofalwyr ifanc a'r gwaith a wneir gan Addysg a Gwasanaethau Plant i gefnogi dyheadau a gweledigaeth y Cyngor ar gyfer pobl ifanc, fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gofalwyr. Yn ystod ei gyflwyniad pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol bod yr wybodaeth

yn yr adroddiad yn wybodaeth ychwanegol i'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor mewn 'Adroddiad Gwybodaeth' a gylchredwyd fis Rhagfyr 2018.

Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol bod pob gofalwr ifanc yn Sir Ddinbych sy'n cael ei atgyfeirio at Ofalwyr Ifanc Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych yn cael cynnig Cerdyn Hamdden. Er bod yna oddeutu 350 o ofalwyr ifanc yn Sir Ddinbych, sy'n hysbys i ni, wedi cael cynnig Cerdyn Hamdden does dim un wedi manteisio ar y cynnig hwnnw. Bu iddynt wrthod y cynnig oherwydd nad oedd arnynt eisiau hynny.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant a Rheolwr y Rhaglen Cymorth Cynnar fel a ganlyn i gwestiynau'r aelodau:

- Ar ôl sgwrsio efo Grwpiau Gofalwyr Ifanc roedd yn amlwg, er bod y syniad o roi cardiau hamdden yn cael ei wneud gyda'r bwriad gorau, nad oedd unigolion yn credu eu bod yn addas iddynt.
  Roedd rhai eisoes yn defnyddio cyfleusterau hamdden fel rhan o'u gweithgareddau ysgol, doedd ar eraill ddim eisiau mynd i ganolfan hamdden ar eu pen eu hunain ac roedd rhai yn meddwl y byddai cael cerdyn gostyngiad hamdden yn gwneud iddynt sefyll allan a chael eu galw'n 'wahanol' – roeddynt yn credu bod stigma ynghlwm wrth gael cerdyn gostyngiad
- Dywedwyd bod y cerdyn sydd ar gael i ofalwyr ifanc yn rhoi gostyngiad iddynt yn hytrach na mynediad am ddim, byddai'r penderfyniad i roi mynediad am ddim yn hytrach na gostyngiad yn benderfyniad masnachol i'r Gwasanaethau Hamdden
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhoi cyfraniadau ariannol i gefnogi gwaith Gofalwyr Ifanc Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych.
  Os yw gofalwyr ifanc eisiau manteisio ar y cerdyn hamdden i gael gostyngiad yna byddai sefydliad Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych yn ariannu'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i rieni wneud cais am y cardiau ar ran y gofalwyr ifanc. Mae nifer o'r teuluoedd hyn, gan gynnwys y gofalwyr, yn wynebu heriau a chymhlethdodau yn ddyddiol, ac felly nid yw gwneud cais am gerdyn a threfnu i rywun arall ddod i ofalu am awr neu ddwy er mwyn iddynt ddefnyddio'r cerdyn hwnnw yn ymarferol bob tro
- Mae'r gofalwyr ifanc yn bobl ifanc ac, yn debyg iawn i'w cyfoedion, maent yn hoffi technoleg ac ati, ac felly mae'n bwysig bod y Cyngor yn gwrando arnynt ac yn darparu gweithgareddau seibiant sy'n diwallu eu hanghenion, nid yr hyn y mae oedolion yn credu sydd arnynt ei angen
- Pwysleisiwyd bod y gofalwyr ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt e.e. teithiau, gwyliau ac ati. Mae gweithgareddau hamdden yn un o gyfres o weithgareddau sydd ar gael i ofalwyr ifanc

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

***PENDERFYNWYD:**- yn amodol ar y sylwadau uchod, derbyn yr adroddiad a chefnogi'r gwaith a wneir i gefnogi gofalwyr ifanc.*

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

Roedd copi o "ffurflen gynnig Aelodau" wedi ei chynnwys yn Atodiad 2. Dylid cyflwyno unrhyw gynnig i'r Cydlynydd Craffu. Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi ei chynnwys yn Atodiad 3 ac mae tabl gyda chrynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a gwybodaeth am y cynnydd wrth eu rhoi ar waith wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Cadarnhaodd y Cydlynydd Craffu, yn dilyn cyfarfod Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu, bod tri adroddiad wedi ei gynnig i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau eu hystyried. Mae'r tri adroddiad wedi eu cynnwys ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Sef:

- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion (CAMHS) (Ebrill 2019)
- Parthau Galw Diwahoddiad (Mai 2019)
- Un Llwybr Mynediad at Dai (Gorffennaf 2019, yn dilyn sesiwn friffio'r Cyngor)

Dywedodd y Cydlynydd Craffu ei bod wedi mynychu cyfarfod cyflwyno Pwyllgor Craffu ar y Cyd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, roedd y Cadeirydd a'r Cyng. Melvyn Mile hefyd yn bresennol. Mae pwyllgor craffu ar y cyd wedi ei sefydlu a bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda hyn.

***PENDERFYNWYD,*** ***yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.***

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Adroddodd y Cydlynydd Craffu ar yr hyfforddiant a ddarperir i Bwyllgor Craffu ar y Cyd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cadarnhawyd bod y Cadeirydd a'r Cyng. Melvyn Mile yn bresennol yn yr hyfforddiant. Cadarnhaodd y Cyng. Melvyn Mile fod yr hyfforddiant yn un llawn gwybodaeth ac wedi egluro disgwyliadau ac uchelgeisiau'r pwyllgor craffu ar y cyd.

Mae copïau o gofnodion y cyfarfodydd Herio Perfformio diweddar wedi eu cylchredeg i'r aelodau fel rhan o'r 'Briff Gwybodaeth'.

***PENDERFYNWYD*** ***y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiadau ar lafar.***

Daeth y cyfarfod i ben am 12:20 p.m.